**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**20 Gorffennaf 2015**

# PROTOCOL IAITH GYMRAEG AR Y CYD Â HEDDLU GOGLEDD CYMRU

**Adroddiad gan Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Ceisio cymeradwyaeth i Brotocol Iaith Gymraeg ar y Cyd rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru.

## Cefndir

2 Mae yna eisoes gyfoeth o gydweithredu llwyddiannus rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Gwelir y protocol hwn fel estyniad o'r cydweithredu presennol sy'n cydnabod y gall y ddau sefydliad yn aml, drwy weithio mewn partneriaeth, gyflawni mwy gyda'r adnoddau sydd ar gael rhyngddynt.

## Gwybodaeth

3 Mae'r protocol ar y cyd yn adlewyrchu ymrwymiad parhaus rhwng y ddau sefydliad tuag at y Gymraeg, sy'n cynnwys ei dysgu, ymwybyddiaeth ohoni a'i datblygu.

4 Mae'r protocol hefyd yn cydnabod y manteision o weithio ar y cyd mewn perthynas â rhannu arferion da ac wrth ystyried darparu gwasanaethau cyfieithu i'r Gymraeg.

5 O fewn y protocol, mae ymrwymiad i barhau i gydweithio a chynnal partneriaeth rhwng y ddau sefydliad mewn perthynas â'r Gymraeg.

6 Mae'r ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth o ran y Gymraeg a hyrwyddo dwyieithrwydd, sydd wedi ei gofnodi yn y protocol hwn, wedi cael cytundeb Grŵp Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru a Fforwm Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**Argymhelliad**

7 Bod yr Aelodau'n nodi'r cynnwys ac yn cymeradwyo'r Protocol Iaith Gymraeg ar y Cyd rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**A HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

**PROTOCOL IAITH GYMRAEG AR Y CYD**

## 1. CEFNDIR

Mae yna eisoes gyfoeth o gydweithredu llwyddiannus rhwng HGC a GTAGC. Er enghraifft:

- Adran Stadau ar y Cyd
- Canolfan Gyfathrebu ar y Cyd
- Tîm Atal Llosgi Bwriadol ar y Cyd
- Cydweithredu mewn perthynas â Diogelwch ar y Ffyrdd
- Swyddfa'r wasg ar y cyd y tu allan i oriau arferol
- Cyd-orsafoedd heddlu/tân

Gwelir y protocol hwn fel estyniad o'r cydweithredu presennol sy'n cydnabod y medrwn yn aml, trwy weithio mewn partneriaeth, gyflawni mwy gyda'r adnoddau sydd gennym rhyngom, creu effaith gryfach yn eich cymunedau lle mae angen hynny, ynghyd â chynnig mwy o chydnerthedd a gwell gwasanaeth i bobl Gogledd Cymru.

## 2. NODAU

- Cydnabod yn ffurfiol y cydweithredu sy'n bodoli rhwng y ddau sefydliad a enwir uchod mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg
- Cydnabod ymrwymiad gan y ddau sefydliad i barhau gyda'r cydweithredu hwn
- Adnabod unrhyw gyfleoedd i wella cydweithrediad sy'n briodol yn nhyb y ddau sefydliad

## 3. CYDWEITHREDU PRESENNOL

### 3.1. Ymrwymiad i'r iaith Gymraeg

Mae'r ddau sefydliad yn ymroddedig i'r iaith Gymraeg ac i gynnig dewis cyfartal o ran iaith i'r cymunedau a wasanaethir gennym, ac rydym hefyd yn gweithio i roddi'r un peth i'n staff ein hunain.

I'r perwyl hwn mae'r ddau sefydliad wedi datblygu polisi sgiliau iaith Gymraeg i sicrhau bod yr holl aelodau staff newydd nad ydynt yn siarad Cymraeg yn medru dangos cwrteisi ieithyddol ar adeg eu penodi, fel man cychwyn.

Er bod y ddau sefydliad yn gweithredu'r polisi sgiliau iaith Gymraeg yn wahanol, mae'r ymrwymiad parhaus i'r polisi yn cael ei gydnabod fel allwedd i wella sgiliau iaith ac ymwybyddiaeth ieithyddol ymhlith staff, ac yn wir mae tystiolaeth sylweddol o'i lwyddiant yn y ddau sefydliad hyd yma.

Cydnabyddir ymrwymiad i'r iaith Gymraeg yn swyddogol gan Gynlluniau Iaith Gymraeg unigol ar gyfer y ddau sefydliad a thrwy gyfrwng monitro blynyddol ac adrodd i Gomisiynydd y Gymraeg ar y cynnydd mewn perthynas â'r Cynlluniau hyn.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn pennu fframwaith i gyflwyno dyletswydd ar rai sefydliadau, gan gynnwys HGC a GTAGC, i gydymffurfio â safonau yn ymwneud â'r Gymraeg ac mae'r ddau sefydliad yn gweithio tuag at gydymffurfio'n briodol â'r safonau unwaith y cânt eu cyflwyno'n ffurfiol.

### 3.2. Rhaglenni dysgu, ymwybyddiaeth a datblygu'r Gymraeg

Mae GTAGC wedi manteisio ar fedru addasu a mabwysiadu rhaglen dysgu'r Gymraeg ar CD a ddatblygwyd gan HGC ac a addaswyd i helpu i ddysgu'r lefel isaf o sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer staff y gwasanaeth tân ac achub ac i hyrwyddo dysgu parhaus. Mabwysiadwyd CD lefel 1-3 ar gyfer staff y gwasanaeth tân ac achub.

Mae'r ddau sefydliad wedi datblygu rhaglenni hyfforddi Cymraeg mewn ymateb i anghenion dysgu a datblygu'r staff. Os oes lle, hysbysebir lle ar gyrsiau i staff yn y sefydliad arall, a gellir cynnal y cwrs yn adeiladau'r naill sefydliad neu'r llall.

Mae gofyn i staff yn y ddau sefydliad fynychu sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar adeg eu penodi (mae swyddogion HGC a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn dilyn hwn yn ystod eu rhaglen hyfforddi ragarweiniol gyda'r heddlu).

### 3.3. Ymrwymiad i rannu profiadau ac arferion gorau

- **Hyrwyddwyr yr iaith Gymraeg**
  Mae'r ddau sefydliad wedi datblygu'r defnydd o Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg ymhlith y staff i annog dysgu trwy gael cymorth gan aelodau staff eraill sy'n cynnig cyngor a mentora, dysgu estynedig ac ati.
- **Hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog**
  Mae gan y ddau sefydliad ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith Gymraeg i hyrwyddo, annog a chefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwaith fel rhan o'u hymrwymiad parhaus i ddod yn sefydliadau dwyieithog.
- **Bathodynnau iaith Gymraeg**
  Mae GTAGC wedi mabwysiadu'r bathodynnau arloesol 'Dw i'n siarad Cymraeg' a 'Dw i'n dysgu' a ddatblygwyd yn gyntaf yn HGC fel rhan o'r ymdrechion i sicrhau bod gallu iaith Gymraeg staff yn fwy gweladwy yn y gwaith ac i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg gyda'r cyhoedd. Anogir staff i wisgo'r bathodyn priodol pan fyddant ar ddyletswydd.
- **Hunaniaith**
  Mae'r ddau sefydliad yn aelodau o grŵp Hunaniaith Cyngor Sir Gwynedd sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod cyfleoedd, arferion gorau a phenderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg ac sy'n benodol i sefydliadau sy'n gweithredu ledled Gwynedd a Gogledd Cymru.
- **Hyrwyddo'r iaith** – mae'r ddau sefydliad yn ymroddedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg trwy gyfrwng digwyddiadau mewnol ac allanol, defnyddio amrywiol eitemau hyrwyddo a thrwy roi cyhoeddusrwydd i lwyddiannau dysgu staff gyda gwobrau dysgu blynyddol ac ati.

### 3.4. Yr Iaith Gymraeg - Cyfieithu

- Mae gan y ddau sefydliad adnoddau mewnol i ddarparu gwasanaethau cyfieithu, gan gynnwys cyfieithiadau ysgrifenedig ac ar y pryd.
- Cydnabyddir bod yr adnoddau yn HGC yn fwy helaeth ac mae'r tîm cyfieithu wedi bod yn agored i ystyried ceisiadau o bryd i'w gilydd i roddi cymorth cyfieithu ychwanegol i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

## 4. CYDWEITHREDU PARHAUS

Mae'r protocol hwn yn cydnabod yn swyddogol y cydweithrediad uchod a'r ymrwymiad i gynnal a pharhau gyda phartneriaeth o'r fath.

Mae'r swyddogion sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfio gyda'r safonau iaith Gymraeg newydd yn ymroddedig i barhau i rannu arferion gorau mewn perthynas â'r Gymraeg a chysylltu gyda'i gilydd ar unrhyw gyfleoedd yn y dyfodol i wella cydweithrediad o'r fath.

I'r perwyl hwn, ynghyd â chyfarfod trwy Grŵp Gweithleoedd a Gwasanaethau Dwyieithog Hunaniaith Cyngor Sir Gwynedd, bydd y swyddogion cyfrifol hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd ddwywaith y flwyddyn i gyfnewid gwybodaeth ac i adnabod unrhyw gyfleoedd eraill y gellir eu rhannu.

**Swyddogion Cyfrifol**

| | |
|---|---|
| **Heddlu Gogledd Cymru**<br>**Meic Raymant (Pennaeth Adran Gwasanaethau'r Iaith Gymraeg)**<br>Ffôn: 01286 670810 Est: 70810<br>Symudol: 07748 624706<br>meic.raymant@nthwales.pnn.police.uk | **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**<br>**Tracey Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol)**<br>Ffôn: 01745 585794<br>Symudol: 07787 578466<br>Tracey.williams@nwales-fireservice.org.uk |